# YSGOL Y FAENOL

# Polisi Ymddygiad
# Behaviour Policy

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: ______________________________**
**Signed on behalf of the Chair of Governors:**

**Dyddiad Cymeradwyo: 02.10.25**
**Dyddiad Adolygu: 01.10.25**

**Rhagarweiniad**

Yn Ysgol y Faenol seilir disgyblaeth ar strategaeth ymddygiad sy'n annog agweddau positif tuag at ymddygiad. Sail llwyddiant y polisi yw'r pwyslais ar ganmol a gwobrwyo ymddygiad da. Mae plant yn gwneud penderfyniadau am eu hymddygiad eu hunain yn seiliedig ar reolau, gwobrwyon a chanlyniadau. Mae ymddygiad da yn hanfodol i fywyd ysgol gan ei fod yn caniatáu ac yn hyrwyddo dysgu a pherthynas ryngbersonol lwyddiannus.

Ni ddylai ymddygiad annerbyniol a thorri rheolau disgyblaeth amharu ar hawliau plant eraill i ddysgu a datblygu. Dylai pob aelod o staff, pob disgybl a phob rhiant fod yn ymwybodol, yn rhan ac yn gefnogol i Bolisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr Ysgol er mwyn iddo lwyddo. Mae cymorth a chefnogaeth rhieni yn angenrheidiol. Mae cyfrifoldeb gyda holl aelodau'r staff i gynnal y polisi hwn bob amser.

**1. Amcanion**

Amcan ein polisi ymddygiad a disgyblaeth yw;

- Gwneud amgylchedd yr ysgol yn ddiddorol, bleserus, diogel a gofalgar ar gyfer meithrin a dysgu plant.
- Darparu strwythur y mae plant, oedolion a rhieni yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt a pha strwythurau a ddarperir ar gyfer gwobrwyo ymddygiad da a delio â phroblemau ymddygiad (neu "oedolion a rhieni yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt a pha strwythurau a ddarperir ar gyfer gwobrwyo ymddygiad da a **chanlyniad** ymddygiad annerbyniol)
- Annog y plant i gyd i ofalu a chymryd gofal o'i gilydd.

Gweithiwn tuag at gyflawni'r amcanion hyn drwy:

- Ddatblygu a mabwysiadu cyd gefnogaeth rhwng oedolion a phlant, plant a phlant ac oedolion ac oedolion.
- Adeiladu hunan-barch a hunanwerth drwy ganmol a gwobrwyo ymddygiad da a datblygu agweddau a pherthnasau positif.
- Darparu disgyblaeth effeithiol ar gyfer dysgu effeithiol.
- Datblygu strategaethau i hyrwyddo hunanreolaeth a dealltwriaeth dda o ganlyniad eu gweithredoedd/ ymddygiad).
- Darparu cymorth a chefnogaeth pan fo'r angen i unrhyw blentyn sy'n cael anhawster i reoli ei ymddygiad ei hun.
- Ystyried unrhyw anableddau neu oediad datblygiadol emosiynol sydd gan blant neu oedolion yn yr ysgol.

.

**2. Safon yr Ymddygiad a ddisgwylir yn Ysgol**

Disgwylir i blant yr ysgol;

- ddangos parch tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr
- barchu eiddo ei gilydd a gofalu am adeilad ac offer yr ysgol
- ymddwyn yn dda a bod yn sylwgar yn y dosbarth
- gerdded (dim rhedeg) wrth symud o gwmpas yr ysgol
- osgoi trais a dial
- defnyddio iaith gwrtais a gweddus
- beidio dod ag offer miniog a pheryglus, offer trydanol, gemwaith a theganau i mewn i'r ysgol.

Gall gwyro oddi ar y safonau ymddygiad hyn fod yn achos disgyblu o dan y Polisi hwn.

**3. Bwlio**

Mae bwlio yn weithred ddifrifol o dorri'r Safonau Ymddygiad ac yn drosedd i'w ddisgyblu. Mae'r ysgol yn rhoi sylw arbennig i adnabod a rhwystro bwlio yn yr ysgol, i ddelio ag ef yn effeithiol pe bai'n digwydd ac addysgu'r plant nad yw'n cael ei oddef yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol felly Bolisi Gwrth-fwlio ar wahân sy'n ymdrin â'r materion hyn.

**4. Ymddygiad tu allan i gyd-destun yr Ysgol**

Gall ymddygiad plant tu allan i'r ysgol ar waith ysgol, fel ar dripiau ysgol neu chwaraeon, gael ei drin o dan y Polisi hwn fel pe bai wedi digwydd o fewn yr ysgol. (Caiff plant eu hatgoffa eu bod yn cynrychioli'r ysgol yn eu gwisg ysgol gyda'r logo ac ymddwyn felly).

**5. Cyfrifoldeb y Staff**

Mae'n bwysig i'r holl staff gynnal y neges am ddisgwyliadau'r ysgol o ymddygiad positif a chwrtais gan bawb nid drwy eu geiriau yn unig ond drwy eu gweithredoedd. Dylid hyrwyddo ymddygiad da yn gyson drwy:

- Dderbyn cyfrifoldeb am ymddygiad y disgyblion tu allan a thu yn y dosbarth a'r
- adeilad.
- Dderbyn cyfrifoldeb am y disgyblion i gyd, nid rhai yn eu dosbarth yn unig
- Rannu problemau a strategaethau llwyddiannus wrth ddelio ag unigolion
- Dilyn safonau o ymddygiad cyffredin.
- Hysbysu'r Athro Dosbarth neu Bennaeth bob amser am ddigwyddiadau neu
- broblemau gyda phlentyn
- Hysbysu'r rhieni'n gyson drwy'r Athro Dosbarth neu'r Pennaeth
- **Fodelu** ymddygiad cadarnhaol (e.e. rheolaeth emosiynol, empathi ayyb) a chyfathrebu cwrtais a pharchus

Mae gweithredoedd, geiriau ac ymddygiad y staff i gyd yn rhoi arwyddion pwysig. Maent yn siarad yn uwch nag unrhyw reol, gosb neu wobr o'r hyn yw safonau disgyblaeth a naws yr ysgol mewn gwirionedd

**6. Cyfraniad y Disgyblion**

Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amser Cylch drwy'r ysgol a hefyd mewn trafodaethau yn ystod sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCH). Golyga hyn gall plant drafod gyda'u cyfoedion ac oedolyn. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau. Gall materion cyffredinol am ddisgyblaeth ac ymddygiad gael eu codi gan blant gyda'r Cyngor Ysgol ac felly'n cael eu dwyn i sylw'r staff a'r Corff Llywodraethol.

**7. Partneriaeth gyda'r Rhieni**

Mae cyd-weithio a phartneriaeth gyda'r rhieni yn angenrheidiol i lwyddiant y polisi hwn. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu am gamymddwyn difrifol gan eu plant er mwyn bod yn rhan o ddatrys unrhyw anawsterau. Y pwynt cyswllt cyntaf rhwng y rhieni a'r ysgol yw Athro Dosbarth y plentyn fel arfer. Os ydy'r camymddwyn yn parhau, gwahoddir rhieni i drafod y mater gyda'r Athro Dosbarth a/neu Bennaeth. Fe allai'r Pennaeth ddymuno trefnu Cynllun

Ymddygiad, Cynllun Gofal Bugeiliol gyda'r rhieni neu strategaethau eraill (e.e. cyfnod yn gweithio ar dargedau ymddygiad personol neu gyfle i gael mynediad i ymyraethau addas o fewn yr ysgol) . Mewn achosion mwy difrifol, cysylltir ag asiantaethau allanol am gymorth neu gyngor a threfnir cyfarfodydd amlasiantaethol yn ôl yr angen.

## 8. Camau Gweithredu Rheolaeth Ymddygiad a Disgyblaeth

Yn ein hysgol ni, dangoswn i blant ein bod yn gofalu cymaint amdanyn nhw i adael iddyn nhw wybod bod ymddygiad da yn cael ei gymeradwyo a'i wobrwyo a hefyd bod ymddygiad gwael yn annerbyniol. Dysgwn iddyn nhw fod yna ganlyniad go iawn i ymddygiad da ac annerbyniol fel ei gilydd. Gwnawn y plant yn ymwybodol o'r Safonau Ymddygiad a ddisgwylir ohonyn nhw. Yn ogystal, o fewn pob dosbarth, bydd y plant wedi cytuno ar reolau a disgwyliadau'r dosbarth ac yn ymwybodol o'r canlyniadau o'u torri.

### 8.1 Cydnabyddiaeth Bositif a Chymeradwyo Ymddygiad Da

Bydd cydnabyddiaeth bositif unigol yn cynnwys:

- Canmol a diolch
- Wal cydnabyddiaeth mewn dosbarthiadau
- Rhannu llwyddiannau gyda teulu e.e neges neis
- Breintiau arbennig e.e gwobr dosbarth
- Dewis rhydd
- Gelli anfon plant sydd yn ymddwyn 'uwchlawr'r disgwyl' at y Pennaeth neu Athro Dosbarth arall fel cydnabyddiaeth o'r ymddygiad.

### 8.2 Canmol Ymddygiad Da

Credwn taw canmoliaeth ac anogaeth yw'r wobr fwyaf pwerus. Bydd plentyn sy'n teimlo wedi ei werthfawrogi gan oedolyn mewn cymuned o werth iddo yn tyfu mewn hunanhyder ac yn ei awydd i lwyddo. Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun 'Dathlu Ymddygiad Uwchlaw'r Disgwyl' Cam Cynnydd 1, 2 a 3.

Bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol ag egwyddorion Meddylfryd o Dwf ac yn parhau i ganmol disgyblion mewn sefyllfaoedd priodol fel cydnabyddiaeth yng ngwasanaeth yr ysgol, mewn adroddiadau ysgol a negeseuon ar lafar neu ysgrifenedig i rieni.

### 8.3 Ymateb i Ymddygiad Annerbyniol

Dull Gweithredu a'r Dewis
Bydd yr ymateb addas wrth ymateb i ymddygiad annerbyniol yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys oed y plant dan sylw, eu datblygiad emosiynol, eu hymddygiad yn y gorffennol, eu perthynas a phlant ac (yn aml) yr angen am ymateb prydlon i'r digwyddiad. Mae gan yr Athro Dosbarth a'r Pennaeth ddewis eang ar sut i ymateb i unrhyw ddigwyddiad, ond (wrth sefydlu'r hyn ddigwyddodd a phenderfynu ar y canlyniadau) fyddan nhw bob amser yn ceisio bod yn deg i'r plentyn/plant ac eraill sy'n gysylltiedig.

Os yw'r ymddygiad annerbyniol yn anodd ac yn barhaus bydd yr ysgol yn llunio cynllun ymddygiad unigol. Bydd y cynllun yma wedi ei gynllunio'n ofalus i gyfarfod anghenion ymddygiadol y disgybl ac yn cynnwys strategaethau i'w dilyn gan y disgybl, rhieni a staff yr ysgol.

### 8.4 Rheolaeth Dosbarth

Mae'r athrawon dosbarth yn gyfrifol am lunio rheolau a disgwyliadau dosbarth gyda'u plant. Bydd y rheolau yn cynnwys rheolau fydd y plant yn penderfynu sydd yn mynd i'w helpu i gadw a 4 rheol aur yr ysgol sef:

- Bod yn gwrtais
- Dangos Parch
- Bod yn ddiogel
- Bod yn gyfrifol

Arddangosir y rhain yn amlwg yn y dosbarth. Adolygir nhw bob tymor. Bydd y rheolau yn cael ei arddangos yn iaith y disgybl ac yn nodi'r ymddygiad **disgwyliedig** e.e. "Rydan ni'n siarad yn gwrtais"

Athro Dosbarth – Camau Gweithredu

Gall camau gweithredu ymddygiad annerbyniol (o ystyried oedran emosiynol a chymeriad ac adnabyddiaeth yr athro o'r plentyn gynnwys:

1. Trafodaeth gyda'r disgybl am ei ymddygiad ac amser i'w ystyried, gan gynnwys
2. " Saib", os yn berthnasol (gweler isod)
3. Cwblhau Ffurflen Digwyddiad Ymddygiad. Bydd hwn yn cael ei ffeilio yn y llyfr digwyddiadau ar gyfer y dyfodol.
4. Ymddiheuriad llafar neu ymddiheuriad ysgrifenedig i'w gwblhau gan y plentyn a'i drosglwyddo i'r person mae'n ymddiheuro iddo yn dilyn trafodaeth adfer yn edrych am effaith yr ymddygiad ar y 'dioddefwr' a chytundeb am sut y dylid gwneud iawn am yr ymddygiad.
5. Colli rhan neu'r cwbl o amser chwarae a chael tasgau i'w cyflawni yn yr amser a gollwyd.

Os ydy'r ymatebion hyn yn ymddangos yn annigonol, dylai'r Athro Dosbarth gyfeirio'r mater i'r Pennaeth.

### 8.5 Saib

Os oes digwyddiad yn ystod gwers (yn enwedig gyda phlant hŷn) fe all yr Athro Dosbarth ddewis roi "saib" i'r plentyn. Golyga hyn anfon y plentyn i gornel/ man ymdawelu ble fydd yn eistedd oddi wrth blant eraill er mwyn cael amser i feddwl, ystyried ei sefyllfa neu dawelu. Pan fydd yn teimlo'n barod, gall ddychwelyd i'w ddosbarth ei hun lle mae'n ddisgwyliedig iddo ymddiheuro i'r Athro Dosbarth, ac i blentyn arall, os yn berthnasol.

## 9. Camau Gweithredu'r Pennaeth

Mewn achos o ymddygiad annerbyniol parhaol neu ddifrifol bydd y Pennaeth yn delio a'r mater. Fe all Athro Dosbarth gyfeirio'r plentyn at y Pennaeth ar unrhyw adeg. Dylai plant gael eu hanfon at y Pennaeth yn unig pan fo'r strategaethau a amlinellir uchod wedi eu trio ond nid yw'r ymddygiad yn gwella neu fod y digwyddiad mor ddifrifol i warantu sylw a gweithredu'r Pennaeth yn syth.

Mae gan y Pennaeth ddewis eang o gamau addas i ddewis ohonynt. Esiamplau o gamau gweithredu'r Pennaeth fyddai:

1. Cyfarfod a'r Athro Dosbarth a'r plentyn i drafod y problemau a'r ymddygiad hyd yma.
2. Rhoi amser i'r plentyn ystyried ei ymddygiad a thrafod unrhyw achlysuron y mae'r ysgol yn rhan ohono.

3. Llythyr at y rhieni yn esbonio'r sefyllfa ac yn rhybudd oddi wrth y Pennaeth i'r plentyn am y camau nesaf os nad ydy'r ymddygiad yn gwella.
4. Llythyr a chyfarfod gyda'r rhieni yn yr ysgol i drafod sefyllfa'u plentyn a chytuno ar y ffordd ymlaen.
5. Llunio Cynllun Ymddygiad Unigol/Gofal Bugeiliol
6. Cysylltu ag asiantaethau allanol pan yn briodol.
7. Gwaharddiad Cyfnod Penodol neu Waharddiad Parhaol.

**9.1 Colli Breintiau**

Gall yr Athro Dosbarth neu'r Pennaeth benderfynu fod y plentyn yn colli rhan neu'r cyfan o amser chwarae fel canlyniad i ymddygiad annerbyniol a gosod tasgau yn ystod yr amser a gollwyd.

Gall y Pennaeth benderfynu y dylai plentyn golli breintiau eraill o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol. Esiampl o hyn fyddai gwrthod caniatâd i blentyn fynd ar daith ysgol neu i glwb ysgol ar ôl iddo fod yn ymosodol ar y maes chwarae, neu ofyn i'r plentyn ( gyda chytundeb y rhieni) i fynd adre am ginio wedi ymddygiad gwael yn ystod amser cinio.

**9.2 Gwaharddiadau**

Gwaharddiad penodol neu barhaol yw'r canlyniad eithaf i ymddygiad gwael ac fel arfer (er nid bob amser) rhoddir pan nad oes strategaethau eraill ar ôl. Disgwylir iddo fod yn brin yn ein hysgol. Wrth ystyried gwaharddiad, bydd y Pennaeth yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae plentyn mewn perygl o gael ei wahardd o'n hysgol ni am gamymddwyn difrifol wrth i'r Pennaeth gredu fod cadw'r plentyn yn yr ysgol yn niweidio addysg a lles y plentyn neu eraill yn yr ysgol.

Fe allai plentyn gael ei wahardd (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) am ymddygiad fel yr esiamplau canlynol:

- Gweithred o drais neu ymddygiad ymosodol droeon tuag at ei gyfoedion a/neu staff
- Bwlio bwriadol
- Defnydd parhaus o iaith anweddus / cam-drin geiriol
- Ymddygiad rhywiol anaddas
- Aflonyddu geiriol parhaus neu aflonyddu oherwydd hil, lliw, cefndir ethnig neu anabledd
- Gadael ysgol heb ganiatâd
- Cyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant
- Ymddygiad sy'n tarfu'n gyson yn yr ystafell ddosbarth neu yn ystod gwersi yn y neuadd neu yn y maes chwarae
- Diystyru cyfarwyddiadau gan greu perygl i eraill

Bydd gwaharddiad penodol fel arfer yn 1-5 diwrnod yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a chofnod ymddygiad blaenorol y plentyn. Gall plentyn gael ei wahardd yn barhaol am un achos difrïol o gamymddwyn hyd yn oed os ydy ei gofnod yn dda a does yna ddim gwaharddiadau penodol blaenorol. Esiamplau o ymddygiad annerbyniol " un tro" sy'n arwain at y fath weithred lem fyddai trais difrifol, cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn yr ysgol neu fygwth defnyddio arf.

## 10 Anghenion Arbennig ac Anabledd

Bydd yr Athro Dosbarth neu'r Pennaeth yn ystyried unrhyw anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol plentyn mewn camau disgyblu. Bwriad yr ysgol yw i blant ag anhawster ymddygiad sylweddol gael eu hystyried yn blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a thrwy Gynllun Ymddygiad Unigol (CYU) a/neu Gynllun Dysgu Unigol (CDU). Bydd gweithredu unrhyw CDU neu CYU yn cael ei fonitro gan y Cydlynydd Anghenion Arbennig a'r Athro Dosbarth. Bydd staff eraill sy'n gysylltiedig (Cynorthwywyr Dysgu, Arolygwyr Cinio ayyb) yn cael eu hysbysu o'r targedau a osodwyd a'r strategaethau a ddefnyddir i annog datblygiad emosiynol ac ymddygiadol yr unigolyn. Os nad ydy'r ymddygiad yn gwella, ystyrir symud ymlaen i Weithredu Ysgol a Mwy a chysylltu ag asiantaethau allanol.

## 11. Sefyllfaoedd Penodol

### 11.1 Maes Chwarae

Rheolau'r maes chwarae ydy:
- Rydym yn dangos parch at bobl, eiddo a'r amgylchedd
- Rydym yn gofalu am ein gilydd a chwarae yn ddiogel
- Rydym yn gwrtais, caredig a chyfeillgar
- Rydym yn ymddiheuro am frifo neu fwrw mewn i rywun yn ddamweiniol
- Rydym yn dilyn cyfarwyddiadau'n syth
- Rydym yn mynd i'n llinellau yn ôl y disgwyl, cyn gynted ag y clywn y gloch.

Gwobrau Tebygol
- Defnydd o offer maes chwarae

Canlyniadau Tebygol Ymddygiad Annerbyniol
- Saib ar y maes chwarae
- Colli amser chwarae (eistedd/gweithio yn yr adeilad)

### 11.2 Amser Chwarae Gwlyb /Chwarae Tu Fewn

Bydd achlysuron pan fydd plant yn methu mynd allan i'r maes chwarae oherwydd y tywydd.

Yn ystod y cyfnodau hyn:
- Rhaid i blant aros yn eu dosbarth eu hunain neu yn y neuadd.
- Rhaid i blant beidio â rhedeg o gwmpas neu gamymddwyn
- Ni ddylai'r plant ddefnyddio siswrn heb oruchwyliaeth
- Bydd athrawon dosbarth yn darparu gemau tawel, papur scrap a chreonau ayyb, comics/llyfrau i'w darllen
- Bydd rheolau'r dosbarth yn weithredol.
- Bydd un athro ar ddyletswydd rhwng dau ddosbarth.

### 11.3 Mynd i mewn ac allan o'r neuadd – Gwasanaeth

Disgwylir i blant:
- Ddod i mewn ac allan yn dawel
- Wrando a pheidio â thynnu sylw eraill.
- Roi llaw i fyny i ateb cwestiynau
- Eistedd ar y llawr mewn dull synhwyrol a derbyniol

Gwobrau Tebygol:
- Clod, naill ai i unigolyn, fel dosbarth neu ysgol gyfan

Canlyniadau Tebygol Ymddygiad Annerbyniol:
- Dychwelyd i'r neuadd amser chwarae neu ymarfer dod i mewn ac allan o'r neuadd fel dosbarth cyfan

**11.4 Clybiau Ar-ôl Ysgol**

Rydym yn annog plant i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol, ond fe allent gael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o glwb am gamymddwyn yn y clwb neu yn yr ysgol yn gyffredinol.

**11.5 Addysg Gorfforol / Nofio**

Disgwylir i'r plant weithio'n synhwyrol yn ystod gwersi. Rhaid iddyn nhw wrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon a'u gweithredu. Rhaid cadw at y rheolau diogelwch bob amser. Os ydy plentyn ar unrhyw adeg yn methu ag ymddwyn yn gyfrifol, fe allai gael ei wahardd o Ymarfer Corff neu wers nofio.

**11.6 Teithiau Ysgol**

Cyn mynd ar daith, bydd athrawon dosbarth yn trafod gyda'u dosbarthiadau'r hyn a ddisgwylid ohonynt o ran ymddygiad a threfniadaeth. Fe fyddan nhw hefyd yn atgoffa'r plant i fod yn gwrtais ac i hyrwyddo enw da'r ysgol yn y gymuned. Mewn achos o ymddygiad annerbyniol neu ddiogelwch y plentyn yn cael ei gyfaddawdu, y canlyniadau tebygol fyddai:

- Hysbysu'r rhieni
- Llythyr o ymddiheuriad i'r lleoliad wedi'i ysgrifennu gan y plentyn
- Gwahardd y plentyn i fynd ar deithiau pellach yn y dyfodol nes i'w ymddygiad wella

**11.7 Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r Polisi hwn ac adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol.

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**

**Dyddiad:**